# CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

## COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWYD NOS FAWRTH, 9fed MEDI 2025 AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.

1. **Presennol** - Siân Dafydd (cad), Gareth Jones, Harry Owen- Talysarn, Dafydd Thomas - Nebo, Barry Bracegirdle, Justin Davies - Penygroes, Gwyndaf Roberts, Tesni Glyn – Llanllyfni, Cyng. Peter Thomas.

**Ymddiheuriadau** -Judith Humphreys, Erfyl Williams, Ceri Owen - Penygroes, Nigel Williams - Talysarn, Hefina Roberts – Llanllyfni.

2. **Datgan buddiant** - pwynt 10 Siân Dafydd - Ceisiadau cynllunio.

3. **Cofnodion cyfarfod 8 Gorffennaf 2025** - Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r cofnodion** - **CCTV Penygroes -** yn dilyn trafodaeth penderfynwyd gohirio trafod y mater hwn ymhellach gan fod gan Gyngor Gwynedd gynllun i osod camerâu ym Mhenygroes. Cadw llygaid ar y sefyllfa. **Cyfarfod Mark Gahan -** gofyn i'r clerc holi os all Mr Gahan ddod i gyfarfod arall o'r cyngor cymuned yn y dyfodol. **Materion pentrefi -** golau stryd dal ddim wedi eu trwsio ym Mhenygroes. Angen dilyn fyny ar hyn.

5. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - roedd pawb wedi derbyn adroddiad gan Cyng. Peter Thomas. Aethpwyd drwy'r adroddiad a rhoi cyfle i bawb godi unrhyw sylwadau. Diolchodd Cyng. Thomas i'r cyngor am yr arwydd cyflymder ar gyfer Nantlle ac adroddodd bod trigolion y pentref yn gweld gwahaniaeth da wedi ei osod. Diolchwyd i Cyng. Thomas am ei waith.

6. **Materion Pentrefi** - angen cysylltu â Geraint Hughes Cyngor Gwynedd i holi ynglŷn â phryd fydd y toriadau ychwanegol y mae'r cyngor cymuned yn talu amdanynt yn cael eu cario allan**. Talysarn -** mainc wrth y safle bws wedi cael ei thynnu oddi yno gan fod ei chyflwr wedi dirywio - Cyngor Gwynedd wedi addo gosod un newydd yno yn fuan. **Nebo -** adroddwyd y bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn ystod y mis i drafod dyfodol ysgol y pentref. Ffordd Parc Nasareth angen arwydd give way neu stop gan ei fod yn beryglus yno. Angen dilyn fyny ar gael bin yn Nasareth. **Penygroes -** dros ffordd i fynedfa'r Stad Ddiwydiannol angen torri'r gordyfiant sy'n dod drosodd i'r palmant. Twll yn y palmant ger mynedfa i Garej Povey angen sylw. **Llanllyfni -** gordyfiant yn waelod Lôn Ddŵr angen ei dorri, anodd i yrwyr weld i'r ffordd i droi allan i'r Ffordd Rhedyw. Car yn cael ei barcio ar dop allt Sisyllt mewn man peryglus, angen sylw. Y clerc i gysylltu â'r sefydliadau pwrpasol ar gyfer y materion hyn.

7. **Taflen ariannol a chyllid** - Pawb wedi derbyn copi o'r daenlen i edrych drosti. Taliadau mwyaf wedi mynd allan oedd yr arwydd cyflymder ar gyfer Nantlle. Yr ad-daliad TAW wedi ei dderbyn erbyn hyn hefyd. **Grant Gwynedd Ni -** adrodd bod y cyngor cymuned wedi derbyn y grant a nawr angen i'r gwaith gael ei gario allan cyn diwedd y flwyddyn (31 Rhagfyr 2025). Trafodwyd i gynnal is-bwyllgor cyllid ar 23 Medi a thrafod y gwaith ar gyfer y grant yr un amser. **Rhestr Asedau -** aethpwyd drwy'r rhestr. Y clerc i wneud y newidiadau a drafodwyd a gyrru copi newydd i bawb edrych drosto cyn y cyfarfod llawn nesaf.

8. **Polisïau** - edrychwyd ar y polisïau còd ymddygiad, rheolau sefydlog, rheolau ariannol a pholisi amgylcheddol cynigwyd ac eiliwyd i basio'r rhain heb ddim newidiadau. Trafodwyd bod angen edrych ar gynllunio polisi cydraddoldeb - y clerc i holi Unllais a'r comisiwn cydraddoldeb os oes templed ar gael.

9. **Llwybrau a Mynwentydd** - **Contract Cae Macpela -** y contract blynyddol wedi dod i ben ac angen trafod sut i symud ymlaen. Cynigwyd y dylid parhau gyda'r tenant fel y mae am y flwyddyn. Trafodwyd ac yna cafwyd cynnig i gynnig y contract i'r un tenant ond bod angen codi'r pris blynyddol gan fod yna waith o osod peipen ddŵr newydd wedi digwydd ers llynedd. Cynigwyd i godi'r pris i £400 y flwyddyn. Eiliwyd a chytunwyd fod y clerc i roi cynnig y tir i'r tenant am bris o £400 y flwyddyn. **Mynwent Macpela -** yn anffodus dros y bythefnos ddiwethaf mae brain wedi bod yn gwneud llanast difrifol yn Macpela wrth bigo am larfa sydd yn byw yn y pridd yno. Y contractwyr wedi bod yn clirio beth maent yn medru ond am edrych fewn i beth ellir gwneud i arafu hyn i lawr a cheisio ei arbed rhag digwydd eto. **Adroddiad contractwyr torri llwybrau a**

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________

**mynwentydd -** roedd cais wedi ei dderbyn gan y contractwyr i roi toriad ychwanegol i'r mynwentydd i gyd. Rhoddodd bris o £400 ychwanegol yn flynyddol i wneud hyn. Trafodwyd a phenderfynwyd yn unfrydol i dderbyn y cais hwn. Hefyd rhoddwyd cais ganddo fod yna lwybrau angen toriadau ychwanegol am y pris o £200 yn flynyddol am weddill y contract. Eto trafodwyd a chytunwyd yn unfrydol i'r gwaith ychwanegol hwn gael ei wneud. **Cais i brynu bedd -** roedd y clerc wedi derbyn cais yn gofyn am gael prynu bedd ym Mynwent Gorffwysfa. Trafodwyd a chytunwyd na fuasai hyn yn bosib. Y polisi wedi ei sefydlu ers nifer o flynyddoedd bellach oherwydd nifer o lefydd claddu sydd ar gael. Wedi gwrthod nifer o geisiadau am hyn. Mae yn gyfrifoldeb statudol ar y cyngor i wneud yn siŵr bod yna le ar gyfer claddedigaethau ond drwy werthu beddi ni fuasai modd cadarnhau hyn.

10. **<u>Ceisiadau Cynllunio</u>** - bu i Siân Dafydd adael y cyfarfod am y drafodaeth hon.
- C25/0608/22/LL – tir ger Plas Felingerrig, Llanllyfni i godi eiddo deulawr 3 ystafell wely – DIM GWRTHWYNEBIAD.
- Ymholiad wedi ei dderbyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â hysbyseb ar lein gan fusnes o fewn yr Hen Co-op yn gwerthu lle ar wal allanol yr adeilad i roi hysbysebion busnesau lleol. A oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer hyn ? Cynigwyd y dylid cysylltu â'r perchennog i sôn am yr ymholiad yma a'n body n ei gynghori i wneud ymholiadau cyn-gynllunio rhag ofn bod angen caniatâd.

11. **<u>Gohebiaeth</u>** - roedd pawb wedi derbyn copïau o'r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn yn ystod y mis. Nid oedd dim yn codi.

12. **<u>Materion ariannol</u>** - cytunwyd i dalu'r isod.
- *Nia Jones - ffôn a we = £25.00*
- *Steven Wyn Lewis - torri mynwentydd a llwybrau = £5225.00*
- *Cyngor Gwynedd – archwiliad mewnol = £624.00*
- *Lite - golau Nadolig newydd Penygroes a Llanllyfni = £2400.00*
- *Cyngor Gwynedd – bin sbwriel brown i Macpela = £40.00*

13. **<u>Unrhyw fater arall</u>** - **Sedd wag - Penygroes a Nantlle** - dim enw wedi dod ymlaen ar gyfer Penygroes a sedd wag wedi dod fyny yn Nantlle. Rhoi hysbyseb fyny am rain. **Dyddiad i osod y golau Nadolig -** y trydanwyr wedi cysylltu eisiau gwybod erbyn pryd bydd eisiau gosod y golau - trafodwyd a phenderfynwyd gofyn iddynt eu gosod cyn 21 Tachwedd, ond dim llawer cynt na hyn.

14. **<u>Tir Cwtin</u>** - (bu i Justin Davies adael y cyfarfod am y drafodaeth hon) - adroddwyd bod e-bost wedi ei dderbyn ar 21 Awst gan gyfreithwyr y Cyngor Cymuned ynghyd ac e-bost yr oeddynt wedi ei dderbyn gan gyfreithwyr Cwtin CBC ynglŷn â'r "community benefit agreement". Yn dilyn darllen yr e-bost i bawb a thrafod sut i symud ymlaen cynigwyd i ymateb i ddweud bod y Cyngor Cymuned wedi mynd ar argymhellion eu cyfreithwyr i wneud hyn ac nad ydynt yn gweld medru symud ymlaen hebddo. Heb hyn ni fydd gan y Cyngor Cymuned unrhyw reolaeth ar weithgareddau Cwtin ac yn teimlo nad oes digon o fanylder o fewn y brydles am weithgareddau a fuasai yn mynd ymlaen. Y Cyngor Cymuned heb gael unrhyw fewnbwn i'r "community interest decleration" a theimlo y gall Cwtin CBC ei newid heb y "community benefit agreement". Yn ychwanegol angen gofyn i'r cyfreithwyr ddiwygio'r cynllun i gyd-fynd ar hen "deed plan". Eiliwyd y cynnig hwn a chytunwyd yn unfrydol i'r clerc gysylltu â chyfreithwyr y Cyngor Cymuned am hyn.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Fawrth, 14 Hydref 2025 am 7.00 o'r gloch yng Nghanolfan Talysarn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________